# DDEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 3

### Tybaco a Chynhyrchion Nicotin

### *Pennod 2 - Manwerthwyr Tybaco a Chynhyrchion Nicotin*

### *Adran 37 - Strwythurau symudol etc.*

69. Mae’r adran hon yn rhoi p#er gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i addasu sut y mae’r Bennod hon yn gymwys mewn perthynas â mangre sy’n gerbyd, yn stondin, yn babell neu’n strwythur symudol. Er enghraifft, gellid gwneud hyn er mwyn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth ychwanegol (efallai rhif cerbyd, neu fanylion adnabod eraill) gael ei darparu wrth gyflwyno cais i gynnwys cofnod yn y gofrestr mewn perthynas â’r mathau hyn o fangreoedd.